

**Cyngor Tref Abergele - Cyflwyniad byr**

Cyn 1974 roedd Abergele'n Gyngor Dosbarth Trefol yn sir hanesyddol Dinbych. Fe grewyd Cyngor Tref Abergele yn 1974, yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol a chwalu Cyngor Dosbarth Trefol Abergele. Yng nghyfnod yr ad-drefnu roedd ardal Cyngor Tref Abergele'n cynnwys Llanddulas a Rhyd-y-foel yn y gorllewin, a Thywyn a Bae Cinmel yn y dwyrain. Beth bynnag, yn dilyn adolygiad gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru fe rannwyd yr ardal hon i dair cymuned yn 1983 - Llanddulas a Rhyd-y-Foel, Tywyn a Bae Cinmel, ac Abergele. Ers 1996 mae Abergele wedi bod yn un o 33 chyngor cymuned yn sir newydd Conwy. Mae ganddo statws Cyngor Tref, gyda Maer y Dref.

Mae gan Abergele boblogaeth o 10,577 (Cyfrifiad 2011), ac ar gyfer llywodraeth leol fe'i rhennir i bedair ward. Mae gan y dref 16 cynghorydd yn cynrychioli'r wardiau canlynol - Gele (6 chynghorydd), Pensarn (3), Pentre Mawr (6), Llansansiôr (1). Fe etholwyd y cynghorwyr presennol ym mis Mai 2017 i wasanaethu am gyfnod o bum mlynedd.

Yn ei Gyfarfod Blynyddol ym Mai mae'r Cyngor yn ethol Maer y Dref a Dirprwy Faer. Mae Maer y Dref yn derbyn lwfans ar gyfer y costau o weinyddu dyletswyddau dinesig. Mae'r cynghorwyr yn derbyn lwfans blynyddol bach ar gyfer argraffu a chostau inc, ac fe allant hawlio ad-daliad am dreuliau ychwanegol, megis teithio awdurdodedig y tu allan i ardal Cyngor y Dref. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cyflogi pedwar aelod o staff - Clerc y Dref, Dirprwy Glerc y Dref, Swyddog Gweinyddol rhan-amser, a Gofalwr/glanhawr.

Fel arfer mae Cyngor Tref Abergele a'i ddau brif bwyllgor yn cyfarfod bob mis, ar wahân i fis Awst. Mae Pwyllgor y Cynllun Lleoliad yn cyfarod bob dau fis. Cynhelir y cyfarfodydd yn Neuadd y Dref, Ffordd Llanddulas, Abergele, ac maent fel arfer ar nos Iau, gan ddechrau am 6.45y.h. Mae nifer o is-bwyllgorau llai eraill hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd drwy'r flwyddyn i ddelio gyda materion neilltuol megis digwyddiadau, masnach, a hyrwyddo.